CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 23 Hydref, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

94 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, (Benllech A), Mr G Owen, (Llanbedrgoch).

95 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

96 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain o Fedi 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

97 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Ni adroddwyd unrhyw fater oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

98 HEDDLU GOGLEDD CYMRU.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – ebost gan Heddlu Gogledd Cymru yn cadarnhau cyfraniad tuag at gynnal a chadw'r Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng. Cadrnhawyd fod y ffurflen gais berthnasol wedi ei dychwelyd.

99 GRWP RHANDDEILIAID CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd – cyswllt gan y Grwp Rhanddeiliaid yn hysbysu ymestyn aelodaeth y Grwp a gwahoddiad i aelod o'r Cyngor Cymuned i gyfarfod o'r Grwp i'w gynnal ar y 9 o Dachwedd yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Mon yn Llangefni am 5-30 y prynhawn.

PENDERFYNWYD – enwebwyd Mrs S Edwards a'r Cynghorydd I Williams fel cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned.

TALIADAU A CHYFRIFON

100 BILIAU.

PENDERFYNWYD – talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Photostatic	Llungopio	£27-72
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwiliad 2016/17	£202-20
Un Llais Cymru	Hyfforddiant Cod Ymddygiad	£80-00
CCTV Services	Cynnal a chadw misol	£4135-64
Ysgol Goronwy Owen	Offer garddio	£50-00

101 CYFRIFON

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Medi 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

102 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Medi 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

103 UN LLAIS CYMRU – CANLLAWIAU DATGAN DIDDORDEB.

Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru ar y 5 Hydref 2017 lle mynegwyd ansicrwydd am y broses o ddatgan diddordebau, cytunwyd i anfon canllawiau a dogfennau model gan Un Llais Cymru. Trafodwyd y dogfennau gan yr aelodau a phenderfynwyd yn erbyn newid ond parhau i ddefnyddio ffurflenni Cyngor Sir Ynys Mon i osgoi ansicrwydd gyda model newydd.

Fodd bynnag fe benderfynwyd i ddefnyddio ffurflen datgan diddordeb buddiannau personol sydd hefyd yn cyfeirio at roddion a lletygarwch.

104 CAER BERLLAN.

Nid oedd dim gwybodaeth bellach i adrodd gan y Clerc, fodd bynnag roedd yn disgwyl cael dau ddyfynbris o'r giat newydd erbyn cyfarfod Tachwedd.

CYNLLUNIO

105 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C571A/FR	Waters Edge Restaurant, Benllech
30C817	The Laurels, Tynygongl
30C77F	Parc Bach, Benllech

2. Gwrthod :

30C350C/1	Storws Wen, Brynteg – mae'r datblygiad hwn o 20 annedd newydd yn gyfystyr ac adeiladu pentref newydd ar gwr Brynteg. O fewn y Cynllun Datblygu Newydd nid oes dim ehangu i fod ym Mrynteg. Mae'n ymddangos fod rheswm a synnwyr cyffredin wedi mynd trwy'r ffenestr. Mae ieuenctid y cylch yn ymdrechu'n galed ar gyflogau isel i fedru rhoi blaendal ar gartref ac eto mae codi ugain o dai moethus i bobl o ddinasoedd pell yn dderbyniol ganddoch.

Terfynwyd y Cyfarfod am 7-40 yr hwyr.